Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Carrog

**Carrog**
**Ger Corwen**
**Sir Ddinbych**
**LL21 9AW**

**Dyddiad yr arolygiad: Mis Ionawr 2012**

**gan**

**Mr W Wiiliams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk



**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol gymunedol yw Ysgol Carrog ar gyfer disgyblion o oedran pedair i un ar ddeg. Fe'i lleolir ym mhentref Carrog, yn Sir Ddinbych. Daw'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r ardal leol gyda rhai yn teithio ymhellach. Disgrifir yr ardal fel un nad yw'n llewyrchus nac ychwaith o dan anfantais economaidd. Mae tua 8% o ddisgyblion â'r hawl i brydau ysgol am ddim, sydd lawer yn is na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae gan yr ysgol 33 o ddisgyblion llawn amser a 5 o blant meithrin rhan amser ar y gofrestr, a ddysgir mewn dau ddosbarth gallu cymysg. Mae pob disgybl o dras ethnig Brydeinig gwyn. Nid oes yr un disgybl y gofelir amdano gan yr awdurdod lleol. Mae tua 10% o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref.

Mae'r ysgol yn nodi bod tua 10% o'i disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol, sydd lawer yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan un disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Carrog yn 2011-2012 yn golygu cyllideb o £4648 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd awdurdod Sir Ddinbych yw £9248 a'r isafswm yn £2719.Mae Ysgol Carrog yn 18fed o'r 52 ysgol gynradd awdurdod Sir Ddinbych o safbwynt ei chyllideb fesul disgybl.

Yn ystod yr arolygiad, arweiniwyd yr ysgol gan aelod staff hŷn a ymgymerodd rôl pennaeth dros dro ym mis Ionawr 2012 yn dilyn ymddeoliad y pennaeth blaenorol.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgyblion o bob oedran yn meddu medrau llythrennedd a chyfathrebu da;
- lefelau cyrhaeddiad yn cymharu'n dda gyda rhai disgyblion mewn ysgolion tebyg;
- disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac maent yn ddysgwyr diwyd a brwdfrydig;
- bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith Gymraeg; a bod
- ansawdd ar gyfer gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd yn dda.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd :

- bod yr arweiniad yn dda a cheir ymrwymiad a rennir tuag at wella safonau;
- bod y llywodraethwyr yn meddu dealltwriaeth dda o anghenion datblygu'r ysgol;
- defnyddir gwybodaeth o hunan-arfarnu yn effeithiol i wneud gwelliannau;
- bod y cynllun datblygu ysgol yn darparu cyfeiriad strategol clir ar gyfer gwaith yr ysgol; a
- pharodrwydd staff i ymgymryd â mentrau newydd ac i dreialu ffyrdd gwahanol o weithio.

## Argymhellion

Er mwyn gwneud cynnydd pellach, mae angen i'r ysgol:

A1 ddefnyddio gwybodaeth hunan-arfarnu yn fwy effeithiol i gynllunio datblygiad pellach; a

A2 datblygu ymhellach strategaethau asesu ar gyfer dysgu yng nghyfnod allweddol 2

***Beth sy'n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn y gwersi a dros amser, mae'r disgyblion i gyd yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2, mae bron pob un yn dod yn ddysgwyr hyderus sydd wedi datblygu arferion dysgu cadarnhaol ac yn gallu gwneud dewisiadau am eu dysgu eu hunain. Erbyn Blwyddyn 5, mae'r mwyafrif yn arfarnu gwaith eu hunain yn bwrpasol ac yn gosod targedau personol i'w hunain ar gyfer gwelliant. Mae bron pob un o'r disgyblion, gan gynnwys y mwy galluog, yn gweithio i'w llawn botensial.

Mae medrau datrys problemau a medrau meddwl disgyblion wedi eu datblygu'n dda yn ystod y Cyfnod Sylfaen a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu dysgu a'r safonau a gyflawnir. Gwneir cynnydd priodol pellach yng nghyfnod allweddol 2.

Mae medrau llythrennedd a chyfathrebu disgyblion o bob oedran yn dda. Mae bron pob un o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn holi a gofyn cwestiynau yn hyderus, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl gan ddefnyddio ystod eang o strategaethau ac erbyn Blwyddyn 2, yn ysgrifennu gyda rhuglder a chywirdeb cynyddol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwrando'n ofalus ac yn cyfrannu'n bwrpasol yn ystod trafodaethau grŵp a dosbarth. Mae'r rhan fwyaf yn dangos amgyffred a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent yn ei ddarllen ac yn datblygu medrau da ar gyfer darllen i wahanol ddibenion. Erbyn Blwyddyn 5, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n fedrus i safon uchel, gan amrywio eu harddull mewn cyd-destunau gwahanol.

Roedd perfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2011 yn dda gyda phob un disgybl yn cyflawni'r lefel disgwyliedig ac yn uwch na chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, roedd perfformiad disgyblion ar y lefel uwch (lefel 3) yn llawer is na'r cyfartaledd teulu mewn Saesneg a mathemateg ond yn arwyddocaol uwch mewn gwyddoniaeth. Roedd cyfran disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyflawni'r lefel disgwyliedig yn gyffredinol uwch na chyfartaledd y teulu. Roedd perfformiad disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) ychydig yn uwch na chyfartaledd y teulu mewn mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is mewn Saesneg.

Ar draws yr ystod oedran, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da wrth gaffael medrau llythrennedd a chyfathrebu yn yr iaith Gymraeg. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac i mewn i gyfnod allweddol 2, maent yn defnyddio'r Gymraeg gyda hyder a chywirdeb cynyddol mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol.

**Lles: Da**

Mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol a chyda cymhelliad uchel gyda phob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn amgylchfyd yr ysgol. Dywed disgyblion nad oes bron ddim ymddygiad gwael neu fwlio a'u bod yn hyderus byddai'r ysgol yn delio'n effeithiol gydag unrhyw achosion a ddigwyddai. Medda'r rhan fwyaf ddealltwriaeth glir

o’r hyn mae'n rhaid iddynt ei wneud i gadw’n iach; mwynhânt ymarfer corff ac maent yn bwyta’n iachus yn yr ysgol.

Yn ystod y gwersi, mae bron pob un o’r disgyblion yn ddysgwyr diwyd a brwdfrydig. Cydweithiant yn gytûn gan ddyfalbarhau ar eu gwaith am gyfnodau estynedig. Mae’r rhan fwyaf yn galw i gof ddysgu blaenorol yn effeithiol ac yn wynebu heriau newydd yn hyderus. Mae bron pob un o’r disgyblion yn arddangos ymddygiad clodwiw.

Mae presenoldeb, dros y tair blynedd ddiwethaf, yn y chwartel uchaf o’i gymharu gyda phresenoldeb ysgolion tebyg. Mae bron pob un o’r disgyblion yn brydlon.

Fel mae disgyblion yn aeddfedu, mae’r rhan fwyaf yn elwa o amrywiaeth o brofiadau a chyfleoedd gan gynnwys y cyngor ysgol a’r grŵp eco. Mae’r cyngor yn ymateb yn gydwybodol i’w cyfrifoldebau, fodd bynnag, nid yw ei rôl gwneud penderfyniadau wedi datblygu’n llawn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae athrawon ac ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol iawn i gynllunio gweithgareddau hyblyg a llawn dychymyg, sy’n llwyddo i gynnal diddordeb yr ystod lawn o ddisgyblion. Mae profiadau dysgu ysgogol ac yn aml yn arloesol, tu fewn a thu allan, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen, yn sicrhau y caiff disgyblion eu herio gan weithgareddau perthnasol sy’n darparu parhad a dilyniant yn eu dysgu. Caiff ymweliadau ac ymwelwyr effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu’r disgyblion.

Mae darpariaeth sydd wedi ei gynllunio’n dda yn sicrhau fod disgyblion yn caffael y medrau llythrennedd a chyfathrebu angenrheidiol iddynt i gael mynediad i’r cwricwlwm ehangach. Mae rhaglenni cefnogi dysgu effeithiol yn galluogi’r holl ddisgyblion i gymryd rhan lawn ymhob gweithgaredd. Mae’r gwaith mwy heriol ac ymestynnol a ddarperir ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog wedi ei gynllunio’n drwyadl ac yn arwain at gynnydd da mewn dysgu a chyflawniad.

Mae strategaethau ar gyfer datblygu medrau meddwl a datrys problemau disgyblion wedi ei sefydlu’n dda iawn yn y Cyfnod Sylfaen ac yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at ddysgu’r disgyblion. Er yn ddatblygiad diweddar, mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl a datrys problemau yng nghyfnod allweddol 2 yn dda.

Mae cynllunio a darpariaeth ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg yn gynhwysfawr ac yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da. Mae gan y Cwricwlwm Cymreig rôl ganolog yn yr ysgol gydag amrywiaeth eang o gyfleoedd wedi eu darparu ar gyfer datblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes a diwylliant Cymru.

Mae’r cysylltiadau cynhyrchiol iawn grëwyd gyda chymunedau, gwledydd a diwylliannau eraill yn galluogi disgyblion i fod yn fwy ymwybodol o’u rôl fel dinasyddion byd eang. Mae’r ysgol yn gweithredu mewn modd cynaliadwy ac mae’r disgyblion ynghlwm yn llawn gydag arbed ynni a lleihau gwastraff.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n dda ac yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cymell ac yn gwneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth a'u dysgu. Mae gweithgareddau heriol a chwestiynu medrus yn ysgogi dysgu disgyblion ac yn ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. Caiff y rhan fwyaf eu hysbrydoli a'u cymell gan dasgau pwrpasol sy'n gofyn llawer ganddynt. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol fanwl ac fe ddefnyddiant yn llwyddiannus ystod o ddulliau a thasgau i ddatblygu'n ymhellach ddysgu a chynnydd disgyblion. Sefydlwyd perthynas waith da iawn sy'n meithrin dysgu; rheolir ymddygiad yn dda gan athrawon a staff cefnogol. Trefnir tasgau yn feddylgar iawn er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr ystod lawn o ddysgwyr.

Mae asesu a chofnodi cynnydd a dysgu disgyblion trwy'r ysgol yn drylwyr . Mae datblygiadau diweddar wedi sicrhau bod cynnydd disgyblion yn cael ei fonitro'n glos wrth iddynt symud trwy'r ysgol ac y nodir yn gyflym iawn unrhyw dangyflawni gan roi rhaglenni ymyrraeth yn syth ar waith.

Yn y Cyfnod Sylfaen, defnyddir gwybodaeth asesu yn effeithiol iawn i gyfeirio cynllunio a darpariaeth bellach. Anogir disgyblion cyfnod allweddol 2 i arfarnu eu gwaith, i osod targedau i'w hunain a chymryd rhan mewn asesu cymheiriaid. Fodd bynnag, mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn y cyfnod cynnar o ddatblygiad ac nid ydynt, fan belled, wedi cael effaith lawn ar ddysgu'r disgyblion.

Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda am gyrhaeddiad a lles eu plant trwy adroddiadau ysgrifenedig sy'n eglur ac yn gyson.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd gofal yr ysgol am ddisgyblion yn dda. Mae pob aelod staff yn sicrhau bod awyrgylch gynnes a chroesawgar ac y diwallir anghenion pob un disgybl. Ceir polisïau a chyfundrefnau priodol i sicrhau bod disgyblion yn ddiogel a'u bod yn cyflawni eu lles emosiynol a chorfforol yn llwyddiannus. Anogir disgyblion i fwyta'n iach, a thrwy weithgareddau corfforol bod ganddynt ystod eang o gyfleoedd i gynyddu lefel eu ffitrwydd a'u hiechyd.

Mae datblygiad personol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion wedi ei gydlynu'n dda ac wedi ei wreiddio'n gryf yn y cwricwlwm ac yng ngweithgareddau dyddiol yr ysgol.. Mae'r ysgol yn hybu gwerthoedd uchel sy'n cynorthwyo disgyblion i wahaniaethu rhwng y da a'r drwg ac yn eu hannog i ysgwyddo cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Mae'r ddarpariaeth parthed hybu datblygiad ysbrydol disgyblion yn briodol.

Mae gan yr ysgol bolisi priodol ac mae ganddi gyfundrefnau ar gyfer diogelu.

Mae'r ysgol yn rhagweithiol wrth adeiladu gweithio ar y cyd gydag asiantaethau allweddol. Gwna'r disgyblion y defnydd llawnaf o'r gefnogaeth broffesiynol geir tu fewn yr ysgol a hefyd gan wasanaethau arbenigol.

Mae'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Trwy adnabod cynnar tangyflawni, darperir cefnogaeth briodol ac amserol ar gyfer disgyblion. Mae cynlluniau addysg ac ymddygiad unigol sydd wedi eu ffocysu ac sydd o ansawdd dda. Caiff rhieni wybodaeth dda a chânt eu

cynnwys yn llawn yn y broses. Gwneir defnydd da o asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion a staff.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chynhwysol, ble caiff disgyblion gyfle cyfartal i gael mynediad i'r holl ddarpariaeth addysgol a chymdeithasol. Rhoir pwyslais clir ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth ac ar greu ethos sy'n meithrin gofal a goddefgarwch

Mae cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd uchel a gydweddir yn briodol i'r holl amrediad oedran a gallu.

Mae'r adeilad o ansawdd da gyda'r holl ofod sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol er budd disgyblion. Mae'r ardal y tu allan ar gyfer y Cyfnod Sylfaen wedi ei ddatblygu'n dda iawn ac yn cynnig ystod eang o brofiadau dysgu sy'n sicrhau bod y disgyblion yn derbyn cwricwlwm wedi ei gydbwyso'n dda ac sy'n cydweddu anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Barn**

Mae arweiniad medrus y pennaeth gweithredol yn cyfleu gweledigaeth glir ac yn rhoi arweiniad strategol i waith yr ysgol. Mewn cyfnod byr, mae wedi llwyddo i adnabod prif gryfderau'r ysgol ar ardaloedd ar gyfer datblygu ac mae wedi gweithredu gwelliannau. Mae disgwyliadau'n uchel a cheir ymrwymiad cyfrannol parthed gwella safonau addysgol. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn effeithiol yn rhannu syniadau o hyfforddiant a mentrau newydd.

Mae'r staff dysgu a'r staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn agos fel tîm ac o dan arweiniad y pennaeth gweithredol, maent yn barod i dreialu mentrau newydd a gwahanol ffyrdd o weithio. Mae pob un aelod o staff yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol iawn.

Gweithredir rheoli perfformiad yn unol â'r anghenion statudol ac mae'r trefniadau yn cynnwys pob aelod staff. Cynllunnir yn ofalus anghenion hyfforddi i ddiwallu blaenoriaethau unigol ac ysgol. Cysylltir y prosesau hyn yn agos gyda strategaethau gwella ysgol a chânt effaith gadarnhaol ar y blaenoriaethau a gynhwysir yn y cynllun datblygu ysgol.

Ymgorfforir blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn llwyddiannus i mewn i raglenni gwaith yr ysgol. Cyfrannodd mentrau fel asesu ar gyfer dysgu a datblygu medrau meddwl, yn gadarnhaol tuag at wella dysgu disgyblion yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o anghenion datblygiadol yr ysgol a thrwy weithio'n agos gyda'r pennaeth gweithredol, maent yn ddylanwadol wrth osod cyfeiriad strategol yr ysgol. Craffir ar ddata cyflawniad disgyblion a nodir tueddiadau mewn perfformiad. Mae aelodau unigol yn ymgymryd ag ymweliadau dosbarth ac yn

cymryd rôl weithredol mewn hunan-arfarnu. Mae llywodraethwyr yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol ac maent yn gwerthfawrogi eu rôl fel cyfeillion beirniadol i'r ysgol. Cyflawnant eu rôl statudol yn gydwybodol iawn.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan reolwyr a staff wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol a defnyddiant y wybodaeth a gasglwyd trwy hunan-arfarnu yn effeithiol i godi safonau a gwneud gwelliannau. Mae pob aelod o staff dysgu a chefnogi yn chwarae rhan weithredol yn y broses ac yn coladu tystiolaeth o nifer o wahanol ffynonellau ar gyfer dod i farn. Mae'r rhain yn cynnwys craffu ar waith disgyblion, deilliannau arsylwadau gwersi, gwybodaeth meincnodi ac adborth oddi wrth lywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Cymerir cyfrif da o safbwyntiau'r awdurdod lleol ac asiantaethau allanol.

Mae adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol o ansawdd da gyda chanolbwyntio clir ar safonau a pherfformiad. Mae'r sylwadau a wneir yn arfarnol ac mae'r barnau yn glir, gonest ac wedi eu seilio ar dystiolaeth.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn darparu cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol ac yn adnabod blaenoriaethau cyfredol a'r tymor hir ar gyfer gweithredu. Llunnir cynlluniau datblygu priodol a fonitrir yn erbyn targedau a meini prawf clir. Adnabyddir tasgau penodol ac fe bennir y gwaith o roi'r cynlluniau ar waith i aelodau o staff unigol. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o'r blaenoriaethau nodwyd trwy hunan-arfarnu a gynhwysir yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae'r staff yn rhannu arfer da sy'n cynnwys arsylwadau dosbarth uniongyrchol, ac maent yn fodlon iawn i ymgymryd â mentrau newydd a ffyrdd newydd o weithio. Mae cyfranogiad yr ysgol mewn cymunedau dysgu proffesiynol yn cael effaith cadarnhaol iawn ar ddatblygiad dehongli data, darpariaeth a rheolaeth adnoddau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau cryf gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill sydd yn ymestyn yn effeithiol brofiadau dysgu disgyblion. Mae rhieni yn gefnogol iawn ac yn gwerthfawrogi'r wybodaeth reolaidd a dderbyniant am weithgareddau'r ysgol a chynnydd eu plant.

Mae cysylltiadau cyd-fuddiol rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae ymwelwyr o, ac ymweliadau i'r gymuned yn cyfoethogi profiadau disgyblion. Mae'r ysgol yn elwa'n sylweddol o'i defnydd rheolaidd o'r neuadd bentref cyfagos ar gyfer gwersi addysg gorfforol a digwyddiadau ysgol eraill.

Mae'r cysylltiadau cryf a ffurfiwyd gyda'r ysgolion uwchradd sy'n derbyn y disgyblion yn hwyluso trosglwyddiad disgyblion o un cyfnod allweddol i'r nesaf ac yn sicrhau parhad a dilyniant yn eu dysgu. Mae trefniadau priodol ar gyfer cymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

**Rheoli adnoddau: Da**

Rheolir a lleolir adnoddau staffio a chyllidol yn effeithiol i gefnogi gwelliant dysgu. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol i ddysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Lleolir athrawon a staff cefnogi yn dda i wneud y defnydd gorau posibl o'u hamser,

arbenigedd a phrofiad. Mae athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae'r trefniadau ar gyfer hyn wedi eu rheoli'n dda.

Gwneir defnydd effeithiol ac effeithlon o'r holl adnoddau sydd ar gael. Monitrir yn rheolaidd goblygiadau cyllidol yr holl flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Sicrha hyn y gwarir pob arian yn ddoeth ac yn unol â blaenoriaethau'r ysgol.

Yn gyffredinol, mae deilliannau disgyblion yn dda ac mae tuedd o welliant. Mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Mae sgorau asesiadau gwaelodlin pan fydd plant yn cychwyn yn y dosbarth derbyn yn dangos bod gan y rhan fwyaf fedrau llythrennedd a chyfathrebu sydd wedi datblygu'n dda. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae bron pob un yn cyflawni'r deilliannau disgwyliedig o'u hoedran a'u gallu.

Mae perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2 yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd y carfannau bach. Mae perfformiad yr ysgol yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn gyffredinol wedi cymharu'n dda gyda lefelau cyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad disgyblion yn y dangosydd pynciau craidd, y lefel disgwyliedig (lefel 2 yn y Cyfnod Sylfaen a lefel 4 yng nghyfnod allweddol 2) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, wedi bod ar gyfartaledd, yn debyg i rai disgyblion mewn ysgolion tebyg eraill. Mae perfformiad cyfnod allweddol 2 mewn gwyddoniaeth wedi bod yn neilltuol o gryf ac roedd yn uwch na chyfartaledd y teulu trwy gydol y cyfnod.

Yn 2011, cyflawnodd pob disgybl yn y Cyfnod Sylfaen y lefel disgwyliedig (lefel 2) ymhob un o'r tri phwnc craidd. Er bod hanner y grŵp wedi cyflawni lefel uwch (lefel 3) mewn gwyddoniaeth, nid oedd yr un ohonynt wedi cyflawni'r un lefel mewn Saesneg a mathemateg. Roedd perfformiad cyfnod allweddol 2 mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn gadarnhaol iawn gyda chyfran o ddisgyblion yn cyflawni'r lefel disgwyliedig a'r lefel 5 uwch yn sylweddol uwch na chyfartaledd y teulu. Roedd y perfformiad mewn Saesneg yn gyffredinol debyg i'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Mae bron pob un o'r disgyblion, beth bynnag fo'u gallu neu gefndir, yn gwneud cynnydd da trwy'r ysgol. Mae merched a bechgyn yn gyffredinol yn perfformio cystal â'i gilydd.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cwblhaodd dau ddeg un o rieni'r holiadur, gyda'r rhan fwyaf yn gadarnhaol ac yn gefnogol o'r ysgol. Yn ddieithriad, dywed rhieni :

- eu bod yn fodlon â'r ysgol a bod yr addysgu'n dda;
- bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac wedi ymsefydlu'n dda;
- bod y plant yn ymddwyn yn dda ac fe ddisgwylir iddynt  i wneud eu gorau a gweithio'n galed;
- bod yr ysgol yn cynorthwyo eu plant i ddod yn fwy aeddfed; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywed bron pob un:

- bod yr addysgu'n dda a bod eu plant yn gwneud cynnydd da; a
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol a'u bod yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.

Teimla rhai rhieni nad yw gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae eu plant yn ei ddysgu yn yr ysgol.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Cwblhaodd dau ddeg tri disgybl yr holiaduron, gyda phob un yn gadarnhaol. Dywed disgyblion;

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, bod staff yn delio'n dda gydag unrhyw fwlio ac y gwyddant pwy i siarad ag os ydynt yn poeni neu'n gofidio;
- eu bod yn gwneud yn dda a bod oedolion yn eu cynorthwyo i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n heini a bod llawer o gyfleoedd iddynt i gael ymarfer corff rheolaidd; a
- bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu mynd ati i wneud eu gwaith.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr W Williams | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs H Hughes | Arolygydd Tîm |

| | |
|---|---|
| Mr K Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mrs T J Howarth | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs S Jones | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

### Cwricwlwm Cenedlaethol

### Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

### Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.